

Cyflwyniad

Mae Mentrau Iaith Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad pwysig hwn.

Mae Mentrau Iaith Cymru a'r 23 Menter Iaith leol yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i wireddu'r weledigaeth o weld y Gymraeg yn ffynnu, gan arwain at gynyddu'r nifer â'r ganran o bobl sy'n siarad Cymraeg ac yn ei defnyddio fel rhan o'u bywydau bob dydd. Mae'r Mentrau Iaith hefyd yn cydweithio gyda'u Hawdurdodau Lleol presennol ar draws Cymru er budd y Gymraeg a phobl leol sy'n siarad Cymraeg. Rydym yn awyddus i barhau i gydweithio ac i weld y lefel o gydweithio ac ymgysylltu yn parhau a chynyddu wrth i'r drefn Llywodraeth leol newid yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, rydym yn croesawu'r egwyddorion a amlinellir yn yr ymgynghoriad o'r angen i ymgysylltu'n weithredol â chymunedau lleol er mwyn dod o hyd i atebion ar y cyd; i sicrhau bod Llywodraeth leol yn y dyfodol yn fwy atebol a bod angen cyd-gynllunio er mwyn gwasanaethu ein cymunedau'n well.

Ein Hymateb

Nid ydym wedi ymateb i'r arolwg ar-lein fel rhan o'r ymgynghoriad oherwydd ei fod yn dechnegol iawn a ddim yn hygyrch ar gyfer cyrff Trydydd Sector. Mae ein hymateb i'r ymgynghoriad felly yn un ysgrifenedig sy'n cyflwyno ein prif bwyntiau a'r egwyddorion rydym yn teimlo y dylid ystyried wrth gynllunio ar gyfer diwygio'r drefn Llywodraeth leol yn y dyfodol.

Ein Prif Negeseuon

Cyfle i Gryfhau'r Gymraeg yn ein Cymunedau

Teimlwn yn gryf fod y broses o ddiwygio'r drefn ar gyfer Llywodraeth leol yng Nghymru yn cynrychioli cyfle euraidd i wella nid dim ond gwasanaethau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan Llywodraeth leol, ond hefyd yn gyfle i ddatblygu dulliau mwy holistaidd a chynaliadwy ar gyfer cynllunio iaith yng Nghymru: mae'n gyfle i Lywodraeth leol gydnabod ei rôl a chwarae rhan lawn i gynllunio'n gadarnhaol dros y Gymraeg.

Mae'n holl bwysig bod cyrff Llywodraeth leol ym mhob rhan o Gymru yn rhannu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o weld y Gymraeg yn ffynnu, a'u bod yn gweithredu dros wireddu'r nod hwnnw trwy gynllunio ar gyfer twf yn y nifer o bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg.

Croesawn y bwriad a amlinellir yn y papur gwyn i gynnwys y Gymraeg fel pwnc craidd yng nghynlluniau corfforaethol y Cynghorau fel rhan o'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; cyn belled â'i bod yn arwain at weithrediad cadarn ac ystyrlon a chynlluniau clir i dyfu'r nifer o siaradwyr Cymraeg a'r cyfleoedd sydd i ddefnyddio'r iaith yn hytrach nag amlinellu gweledigaeth docenistaidd na wireddir mewn realiti.

Yn gysylltiedig â'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y mae'r Bil Cynllunio. Yn ein hymateb i'r ymgynghoriad diweddaraf ar y Bil Cynllunio pwysleisiwn fod yna beryg go iawn fod polisi cynllunio'r Llywodraeth ac Awdurdodau Lleol yn mynd i danseilio ei pholisi i hyrwyddo'r Gymraeg. Erfyniwn i Llywodraeth Cymru ymateb yn gadarnhaol i'r galw gan gyrff sy'n arbenigo mewn hyrwyddo'r Gymraeg i ddiwygio'r Bil Cynllunio, a chyfrifoldebau Llywodraeth leol i weithredu cynlluniau sy'n cefnogi, yn hytrach na thanseilio'r Gymraeg.

Cynllunio ieithyddol

Rydym yn croesawu'r egwyddorion o well gydweithio; gwell gynrychiolaeth ac ymgysylltu â chymunedau lleol. I lwyddo, mae angen i gynllunio ieithyddol ddigwydd ar lefel genedlaethol a lleol; mae angen uchelgais ac arweiniad cryf ar lefel genedlaethol gan Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag ymrwymiad a gweithrediad gan Lywodraeth leol mewn cydweithrediad â chymunedau lleol a grwpiau gwirfoddol ar lefel leol, gymunedol. Wrth gynllunio i ddiwygio'r drefn ar gyfer Llywodraeth leol mae gan Llywodraeth Cymru, felly, gyfle gwych i feithrin dulliau cynllunio iaith holistaidd sy'n cysylltu'r holl bartneriaid ar draws sectorau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, ynghyd ag annog cydweithio a rhannu gwybodaeth ac arbenigedd gyda'r Cynghorau newydd.

Trawsnewid Gwasanaethau

Mae diwygio Llywodraeth leol yn gyfle i drawsnewid gwasanaethau Cymraeg ac mae angen i Lywodraeth Cymru osod nod a disgwyliadau clir ar gyfer Llywodraeth leol yn y dyfodol ynghlŷn â'u cyfrifoldebau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

Gyda'r safonau mewn perthynas â'r Gymraeg yn dod i rym mae diwygio Llywodraeth leol hefyd yn gyfle i gyrff fod yn fwy gweithredol ac yn fwy uchelgeisiol i gynyddu a gwella eu darpariaeth a gwasanaethau Cymraeg yn sylweddol, tu hwnt i'r lleiafswm y mae'r safonau yn gofyn iddynt ddarparu.

Drosodd a throsodd mae siaradwyr Cymraeg yn wynebu problemau a rhwystrau wrth dderbyn, neu wrth geisio derbyn, gwasanaethau cyfrwng Cymraeg:

- Mae siaradwyr Cymraeg yn derbyn gwasanaeth anfoddhaol yn aml; neu nid oes gwasanaeth ar gael o gwbl
- Mae'r Gymraeg yn cael ei drin yn eilradd
- Does dim gwasanaethau Cymraeg ar gael o gwbl mewn rhai ardaloedd
- Mae'r Gymraeg yn cael ei ystyried yn wasanaeth ychwanegol yn hytrach na gwasanaeth craidd
- Mae'r Gymraeg yn cael ei ystyried yn gost ychwanegol yn hytrach na chost craidd rhedeg y sefydliad.
- Mae angen i awdurdodau lleol gymryd eu cyfrifoldebau dros y Gymraeg o ddifrif - mae achosion lu o ddiffyg gwasanaethau sylfaenol yn cael ei ddarparu yn ddwyieithog.

Yn galonogol, mae enghreifftiau o arfer da o ddarparu gwasanaethau yn bodoli, a phwysleisiwn y dylid cynllunio sut i efelychu'r arfer da hwn wrth baratoi ar gyfer diwygio Llywodraeth leol er mwyn trawsnewid gwasanaethau yn y dyfodol, e.e. mae polisi iaith Cyngor Sir Gwynedd yn enghraifft o arfer da, lle mae polisi gweinyddol mewnol wedi arwain at brif-ffrydio a normaleiddio'r Gymraeg yng ngwaith y corff yn ei gyfanrwydd.

Hoffem weld y Cynghorau newydd yn gweithredu'n gadarnhaol dros y Gymraeg trwy:

- Sicrhau bod pob adran yn deall eu dyletswydd i beidio ag ymdrin â'r Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Godi ymwybyddiaeth o hawliau siaradwyr Cymraeg, deddfwriaeth a'r ddyletswydd ar gyrrff cyhoeddus, e.e. trwy hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith.
- Wneud y Gymraeg yn iaith hanfodol ar gyfer swyddi sydd yn derbyn arian cyhoeddus yn ddiodyn
- Weithredu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg er mwyn cynyddu'r defnydd ohonynt a darparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn ddiodyn.
- Gynnwys amod ar bob cytundeb sydd yn cael ei ddyfarnu i gwmnïau eraill bod angen iddyn nhw gyd-fynd â pholisi ieithyddol yr awdurdod lleol.

Swyddi Cyfrwng Cymraeg

Fel cyflogwyr mawr lleol mae gan Gynghorau gyfleoedd i ddylanwadu'n gadarnhaol ar y Gymraeg trwy gydnabod yn llawn pwysigrwydd a gwerth y Gymraeg fel sgil ar gyfer swyddi ac i fynd ati'n rhagweithiol i sicrhau'r defnydd ohoni yn y gweithle, gan ddechrau trwy drawsnewid eu polisiau recriwtio i gyflogi mwy o bobl â sgiliau Cymraeg.

Mae llawer o'r problemau a wynebir gan Lywodraeth leol yn deillio o ddiffyg polisiau ieithyddol cryf yn y maes adnoddau dynol:

- Does dim digon o swyddi yn cynnwys y gallu i siarad Gymraeg fel sgil hanfodol
- Does dim digon o staff sydd yn siarad Cymraeg yn ei defnyddio yn y gweithle.
- Mae gweithleoedd sydd yn gweinyddu drwy gyfrwng y Saesneg yn unig yn lleihau cyfleoedd gwaith yn y Gymraeg.
- Nid yw dysgwyr yn cael chwarae teg yn y gweithle - mae'r nifer o ddysgwyr sydd yn llwyddo i ddod yn rhugl yn isel iawn oherwydd diffyg oriau cyswllt â'r iaith mewn dosbarth a thu allan i'r dosbarth.

Wrth ddiwygio'r drefn Llywodraeth leol mae gan Llywodraeth Cymru gyfle i ymateb i'r problemau hyn trwy sicrhau bod:

- Y Gymraeg yn iaith hanfodol ar gyfer mwy o swyddi, gan osod targedau clir i gynyddu'r nifer o weithwyr sy'n medru'r Gymraeg
- Recriwtio siaradwyr Cymraeg a chydabod y Gymraeg fel sgil hanfodol ar gyfer swyddi.
- Creu cynllun Marchnad Lafur Cymraeg lle mae modd cynyddu cyfleoedd gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, hyfforddi siaradwyr Cymraeg ar gyfer swyddi a dysgu Cymraeg i unigolion. Byddai hyn yn ymyrryd ar y farchnad lafur ac yn cael dylanwad positif ar faint o Gymraeg sydd yn y gweithle.
- Cynyddu'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth i staff ddysgu Cymraeg a chreu system sy'n galluogi pobl i ddysgu Cymraeg yn gyflym ac yn ymarferol (e.e. o fewn 12 mis) yn hytrach na chynnig cyrsiau hamddenol lle mae'n gallu cymryd hyd at 8 mlynedd i gyrraedd lefel o ruglder lle mae pobl yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn broffesiynol.
 - mwy o awdurdodau lleol yn mabwysiadu'r Gymraeg fel iaith fewnol y sefydliad.

Diogelu a Chryfhau'r Berthynas â'r Trydydd Sector

Mae angen i Llywodraeth Cymru a'r Cynghorau newydd gydnabod pwysigrwydd partneriaethau yn y trydydd sector er mwyn gwasanaethu cymunedau'n effeithiol. Ar yr un pryd dylid nodi bod nifer helaeth o fudiadau Trydydd Sector yn gweithio gorau ar lefel leol, gymunedol ac felly mae angen diogelu'r berthynas rhwng cyrff cymunedol a phobl leol trwy sicrhau eu bod nhw'n medru parhau i weithio ar lefel gymunedol a lleol wrth i ddalgylich eu hawdurdodau lleol newid yn y dyfodol. Rydym hefyd am weld y lefel o ymgysylltu a chydweithio rhwng Awdurdodau Lleol a mudiadau trydydd sector gynyddu wrth i'r drefn newydd ddatblygu.

Manylion Cyswilt

Mentrau Iaith Cymru
Y Sgwâr, Llanrwst
LL26 0LG
post@mentrauaith.org